

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Manor Road Dental Practice Ltd,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe  
Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 15 Ionawr  
2018

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf? .....	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	25
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle roddir rhybudd yn Manor Road Dental Practice Ltd, yn 72 Manor Road, Manselton, Abertawe SA5 9PN o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 15 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod y staff yn Manor Road Dental Practice yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi fod y staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol tuag at gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd gan y practis y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r cleifion, y practis a'r staff.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd dystiolaeth o arweinyddiaeth gref gan y rheolwr practis
- Roedd y practis yn ceisio adborth cleifion yn weithredol
- Roedd yr ardaloedd clinigol yn amlwg yn lân ac yn daclus ac yn llawn cyfarpar.
- Roedd offer deintyddol wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i wasanaethu'n rheolaidd

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'r holl staff clinigol yn cael hyfforddiant cyfredol sy'n berthnasol i'w swyddogaeth
- Rhaid cadw cofnodion yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Manor Road Dental Practice yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abertawe . Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, dau hylenydd, dau therapydd, chwe nyrs ddeintyddol, pedair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis wedi ymrwmo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Nododd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 18 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*Bob amser yn cael eich cyfarch ar y ffôn neu yn bersonol mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y pellter yr wyf yn ei deithio ar gyfer triniaeth, fel y nodwyd eisoes yn llawer gwell na'r driniaeth arferol*

Rwyf wedi derbyn safon uchel iawn o ofal wrth fod yn rhan o'r practis hwn ac rwy'n eu hargymell i unrhyw un sydd angen deintydd

*Practis gwych. Rwy'n glaf sy'n derbyn gofal da*

## Cadw'n iach

Yn y man aros, gwelsom ddetholiad o daflenni gwybodaeth hybu iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni am driniaethau a chyngor ataliol. Yn ogystal, roedd gan y practis arddangosfa fawr yn rhoi gwybod i gleifion am ganser y geg.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi trafod gyda hwy sut y gallent gadw eu ceg a'u dannedd mewn cyflwr iach.

## Gofal ag urddas



Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth iddynt ymweld â'r practis. Rhoddodd un claf y sylw canlynol yn yr holiaduron yn canmol y staff:

"Manor Rd yw'r practis deintyddol gorau yr wyf wedi bod iddo. Rwyf yn arbennig o hapus gyda'r modd mae pob aelod o staff yn siarad a thrin fy merch chwe blwydd oed hefyd "

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais wrth siarad â chleifion, gan gynnwys plant, ac wrth siarad â chleifion ar y ffôn.

Pe bai angen cynnal sgwrs breifat gyda chleifion, dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio swyddfa'r cydlynedd triniaeth, swyddfa'r rheolwr practis, neu os na allai'r claf ddringo'r grisiau, ystafell driniaeth rydd ar y llawr gwaelod. Gellid gwneud galwadau ffôn hefyd o swyddfa rheolwr y practis sy'n rhoi preifatrwydd i'r claf.

Roedd cofnodion meddygol cleifion yn electronig. Dywedwyd wrthym fod cofnodion papur wedi'u harchifo wedi'u storio'n ddiogel yn atig y practis.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd rhan (cymaint ag yr oeddent eisiau) mewn unrhyw benderfyniadau oedd yn cael eu gwneud am eu triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion, heblaw am un, fod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan fydd angen triniaeth arnynt.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei wneud yn eglur iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn deall sut oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwelsom restrau prisiau sy'n dangos triniaeth ddeintyddol y GIG a chostau triniaeth ddeintyddol breifat yn yr ystafell aros.

Roedd manylion y deintyddion yn y practis a'u horiau agor cyfatebol yn cael eu harddangos wrth fynedfa'r practis. Roedd y manylion hyn ond yn cynnwys enwau a chymwysterau'r deintyddion parhaol, nid y locwm a oedd yn gweithio yn y practis yn rhan amser. Rydym yn argymhell bod y practis yn cynnwys manylion y deintydd locwm.

Nid oedd taflen y practis a oedd ar gael i gleifion yn cynnwys manylion y deintyddion cyfredol a oedd yn y practis. Rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei ddiweddarau i ddarparu gwybodaeth gyfredol am glinigwyr.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ychwanegu manylion y deintydd locwm i rai'r deintyddion preswyl sy'n cael eu dangos yn y brif fynedfa.

Dylid diweddarau taflen wybodaeth y practis i ddarparu manylion deintyddion cyfredol y practis.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur, a oedd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu dewis iaith.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn unol â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>1</sup> ond roedd angen iddi gael ei diweddarau i gynnwys cyfeiriad at wybodaeth gyswllt gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis adolygu a diweddarau eu gwefan i gynnwys cyfeiriad at wybodaeth gyswllt gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

### Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r 18 o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael mynediad at ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn cael eu harddangos y tu fewn a'r tu allan i'r practis. Roedd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

---

<sup>1</sup> [https://www.gdc-uk.org/api/files/Guidance%20on%20advertising%20\(Sept%202013\).pdf](https://www.gdc-uk.org/api/files/Guidance%20on%20advertising%20(Sept%202013).pdf)

Yn ystod ei oriau agor gwnaeth y practis ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd staff wrthym, pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion sy'n aros am unrhyw oedi.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Dangosodd archwiliad o gofnodion cleifion fod cleifion yn cael eu holi am eu hanes meddygol ar adeg eu hymweliad. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### **Hawliau pobl**

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Roedd yr ardal aros a'r dderbynfa ar y llawr gwaelod. Mae cleifion yn cyrraedd yr ardal aros sydd wedi'i gwahanu oddi wrth y dderbynfa gyda gris. Roedd y rhai ag anawsterau symud yn gallu mynd i mewn i'r dderbynfa trwy fynedfa ar wahân ac roeddent hefyd yn gallu cael mynediad i'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod.

Roedd cyfleusterau toiled ar gael ar gyfer defnydd cleifion ar y llawr gwaelod gyda mynediad da a rheiliau llaw sy'n darparu cymorth i gleifion sydd ei angen.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur y byddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn am y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol GIG a phreifat. Lle bo'n berthnasol, roedd y polisi wedi'i alinio â phroses gwyno'r GIG "Gweithio i Wella" ac roedd triniaeth ddeintyddol breifat wedi'i halinio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008. Roedd y polisi ar gael yn ddwyieithog, mewn ffolderi gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros, ac yn cael ei arddangos yn yr ardal aros a'r dderbynfa hefyd.

Roedd y practis yn cynnal ffolder sy'n cynnwys cofnodion cynhwysfawr o gwynion a dderbyniwyd, camau a gymerwyd a chanlyniadau. Roedd peth o'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei storio ar gofnodion cleifion. Byddem yn argymhell nad yw gwybodaeth sy'n ymwneud â chwyn ffurfiol yn cael ei hychwanegu at gofnod y claf. Roedd y practis hefyd yn cofnodi pryderon ar lafar /anffurfiol ar gofnodion cleifion. Argymhellir bod adborth cleifion yn cael ei gadw ar wahân i'w nodiadau meddygol a bod y practis yn cadw llyfr nodiadau

yn y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth ar lafar. Ynghyd â'r wybodaeth yn y ffolder cwynion, byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu ailadroddol.

Mae'r practis yn ymgymryd ag arolygon cleifion bob blwyddyn ac mae blwch awgrymiadau yn yr ardal aros. Roedd yn ymddangos bod y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn ymwybodol o'r arolygon hyn; dywedodd yr holl gleifion heblaw am un fod y practis yn gofyn am eu barn ynglŷn â'r practis deintyddol, er enghraifft, trwy holiaduron cleifion. Mae adborth o'r blwch arolygon ac awgrymiadau yn cael ei ddadansoddi a chaiff y canlyniadau eu hadrodd yn ôl i'r holl staff mewn cyfarfod practis.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu proses amgen ar gyfer cofnodi cwynion cleifion ac adborth anffurfiol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer dadheintio offerynnau deintyddol a gwelsom fod contractau ar waith a oedd yn sicrhau bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn ddiogel ac wedi'u cynnal yn dda

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion ym mhob ymweliad

### **Gofal diogel**

Gwnaethom leisio pryderon ynghylch y gofyniad fod pob aelod o staff clinigol yn meddu ar dystysgrifau cyfredol mewn perthynas â rheoli heintiau, Ymbelydredd Ïoneiddio a diogelu oedolion agored i niwed yn ystod yr arolygiad. Pan ddaethpwyd â'r rhain at sylw rheolwr y practis, cafodd trefniadau eu gwneud i'r staff clinigol perthnasol fynychu cyrsiau priodol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol y gwnaethom eu nodi yn cael eu darparu yn Atodiad A.

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i ddiogelu diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis, a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn ystod yr arolygiad roedd gwaith allanol yn mynd rhagddo i ddatrys mater gyda'r simnai. Roedd y pecyn dadebru brys yn cael ei gadw mewn cwpwrdd ar y llawr cyntaf. Roedd y sugnydd llwch hefyd wedi'i storio yn yr un cwpwrdd. Ar adeg yr arolygiad roedd llinyn trydanol y glanhäwr yn rhydd ac roedd yn peri risg o faglu pe bai rhywun yn estyn am y pecyn argyfwng. Pan ddygwyd hyn at sylw

rheolwr y practis, cafodd hyn ei ddatrys ar unwaith. Gwnaethom arsylwi fod yr ystafelloedd triniaeth a'r ardaloedd cyhoeddus yn lân ac yn daclus. Gwnaethom sylwi ar haen drwchus o lwch mewn pibell awyr nad oedd yn cael ei defnyddio yn yr ystafell ddadheintio. Cafodd y bibell awyr ei glanhau cyn gynted ag y daethpwyd â hi at sylw rheolwr y practis.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu mynegi gan y cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur, ynghylch glendid y practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwnaethom nodi nad oedd y torrwr papur a oedd wedi'i leoli wrth ddesg y dderbynfa wedi'i brofi. Rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei gynnwys yn y prawf nesaf sydd wedi'i drefnu. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o gwmpas yr adeilad a gwnaethom nodi bod trefniadau gwasanaethu wedi'u cynnal o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Roedd gan y practis restr wirio Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, taflenni data diogelwch perthnasol sy'n darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar gyfer defnydd diogel mewn perthynas â sylweddau eraill sy'n cael eu defnyddio o fewn y practis.

Mae gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gwnaethom weld bod poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos.

Ar adeg ein hymweliad, roedd cyfleusterau i waredu cynhyrchion hylendid benywaidd yn y toiled cleifion ac yn un o'r toiledau staff ond nid yn yr ail doiled staff a'r ystafell gawod. Gwnaethom argymhell bod y practis yn adolygu ei reoliadau presennol o ran y ddarpariaeth hon a chynnig y cyfleusterau gofynnol.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer trydanol perthnasol yn cael eu cynnwys yn y profion dyfeisiadau cludadwy nesaf.

Mae angen darparu cyfleusterau ar gyfer gwaredu gwastraff hylendid benywaidd yn hylan yn y toiled staff.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol fel yr argymhellwyd gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>2</sup>.

Cafodd gwiriadau cynnal a chadw eu gwneud ar offer sterileiddio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a gwelsom dystiolaeth bod y llyfrau log ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio yn cael eu cynnal. Roedd rhestr wirio tasgau dyddiol hefyd ar y wal i'w defnyddio gan staff. Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan staff fynediad at offer amddiffyn personol wrth weithio yn yr ystafell ddadheintio ac roeddent yn eu defnyddio.

Ac eithrio un nyrs deintyddol, a oedd wedi trefnu i fynychu cwrs a oedd ar y gweill, roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf, gwelsom dystiolaeth bod gan bob aelod o staff clinigol dystysgrifau ar ffeil i gadarnhau bod ei hyfforddiant rheoli heintiau yn gyfredol.

Roedd y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau WHTM 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

---

<sup>2</sup> Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ddelio ag argyfyngau cleifion, gan gynnwys polisi dadebru. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i swyddogaeth pe bai argyfwng meddygol, byddem yn argymhell bod polisi argyfyngau meddygol y practis yn cael ei ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng yn codi.

Ac eithrio un deintydd a thri nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, roedd staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf, ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar dystysgrifau cyfredol ar gyfer hyfforddiant priodol. Roedd gan y practis dri swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis gyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ac offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel a gellid mynd atynt yn hawdd.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bob mis fod gan gyffuriau ac offer brys ddyddiadau dod i ben sy'n gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Byddem yn argymhell bod y gwiriadau hyn yn cael eu gwneud bob wythnos.

Gwnaethom nodi bod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r practis yn cofnodi pryderon am adweithiau niweidiol i gyffuriau yn eu llyfr damweiniau. Rydyn yn argymhell bod y practis yn rhoi gwybod am broblemau sy'n cael eu profi gyda meddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol trwy gynllun Cerdyn Melyn MHRA <sup>3</sup>.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad i hyfforddiant Argyfyngau Meddygol a adfywio cardio-pwlmonaidd perthnasol a'i fod yn cwblhau'r hyfforddiant hwn.

Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi argyfyngau meddygol i gynnwys gwybodaeth

---

<sup>3</sup> <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>



am swyddogaethau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng yn codi.

Dylai'r practis wirio'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ac offer dadebru yn wythnosol.

Dylai'r practis roi gwybod i'r MHRA am unrhyw adweithiau negyddol i gyffuriau trwy ei Gynllun Cerdyn Melyn.

### **Diogelu plant ac oedolion mewn perygl**

Gwelsom fod gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd pob un o'r nyrsys deintyddol heblaw am un wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Cyn diwedd yr arolygiad, cafodd trefniadau eu gwneud i'r nyrs gwblhau cwrs hyfforddi ar-lein.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y manau a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennau'n dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Roedd y peiriant pelydr-X ar y llawr gwaelod wedi'i leoli mewn ystafell ar wahân i'r ystafelloedd triniaeth. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw farciau ar y llawr yn nodi ardal ddiogel i'r gweithredwr sefyll. Byddem yn cynghori bod y practis yn gwneud marciau priodol i sicrhau bod y peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Yn unol â gofynion Rheoliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>4</sup> a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)<sup>5</sup> (IR (ME) R) 2000 roedd yr holl staff clinigol, ac eithrio un nyrs ddeintyddol, wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Roedd trefniadau wedi'u gwneud i'r nyrs fynychu hyfforddiant perthnasol erbyn diwedd Ionawr 2018.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys rheoli gwastraff a thynnu pelydrau-X. Gwnaeth hefyd gynnal un archwiliad yn unol â WHTM 01-05<sup>6</sup> yn 2015, ynghyd â hunanasesiadau mwy diweddar. Yn ôl canllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 dylai practisau adolygu eu canlyniadau archwilio o leiaf bob blwyddyn, neu pan fo problem ddadheintio yn codi, er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu cynnal.

Mae'r practis hefyd wedi cynnal nifer o archwiliadau ychwanegol, gan gynnwys cofnodion cleifion, golchi dwylo ac arolygiad o'r holl offerynnau clinigol.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Yn unol â chanllawiau, dylai'r practis gynnal archwiliadau blynyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

---

<sup>4</sup> Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

<sup>5</sup> [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi\\_20001059\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf)

<sup>6</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Mae'r deintyddion yn cynnal cyfarfodydd bob dau fis ar gyfer adolygiadau cymheiriaid. Mae nyrsys deintyddol hefyd yn cyfarfod ar wahân yn dilyn y cyfarfodydd practis i drafod materion clinigol. Yn ogystal, gwnaeth y practis gwblhau offeryn datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deoniaeth Cymru<sup>7</sup>. Mae'r offeryn yn offeryn datblygu practisau deintyddol sy'n caniatáu i dîm deintyddol ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith i ddiogelu data cleifion. Roedd gan y practis ffeiliau electronig yn bennaf a gwnaed copïau wrth gefn yn rheolaidd. Roedd gwybodaeth am gleifion nad yw'n electronig yn cael ei storio'n ddiogel yn atig y practis.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Canfuom fod rhai hepgoriadau mewn rhai achosion, sef:

- Diffyg tystiolaeth o roi cyngor i roi'r gorau i ysmygu
- Diffyg tystiolaeth o sgrinio canser yn cael ei wneud
- Dim tystiolaeth o wiriadau meinwe meddal yn cael eu cynnal
- Nid yw lefelau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol <sup>8</sup> bob amser yn cael eu cofnodi
- Nid oedd cynlluniau triniaeth bob amser yn cael eu cofnodi

---

<sup>7</sup> <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

<sup>8</sup> Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd peridontol yn rhan hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir yr archwiliad periodontol sylfaenol (BPE) fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ym mhob ymweliad cleifion i gofnodi:

- Cyngor am roi'r gorau i ysmegu
- Sgrinio am ganser
- Gwiriadau meinwe meddal
- Cynlluniau triniaeth

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn ystod yr arolygiad, canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd strwythurau rheoli da ar waith er budd y staff gan gynnwys gwerthusiadau staff ac roedd ystod gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Mae angen dosbarthu cofnodion cyfarfodydd staff i'r holl staff.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Y prif ddeintydd a rheolwr y practis sydd yn berchen ar Manor Road Dental Practice Ltd ar y cyd. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth gref a bod staff yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis yn drefnus iawn ac roedd amrediad eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom dystiolaeth fod rheolwr y practis yn adolygu'r polisiâu'n flynyddol. Nodwyd mai dim ond y nyrsys deintyddol dan hyfforddiant oedd wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen y polisiâu. Argymhellwn fod yr holl staff yn llofnodi pob polisi i gadarnhau eu bod wedi cael eu darllen ac i ddangos dystiolaeth o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

### **Staff ac adnoddau**

#### **Gweithlu**

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom berthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o staff gongtractau cyflogaeth a gwelsom dystiolaeth ar ffeiliau staff fod gan y practis raglen ymsefydlu ar waith a oedd yn cael ei hadolygu ar ôl un mis a thri

mis o gyflogaeth. Roedd hefyd raglen o arfarniadau staff a chynlluniau datblygu personol, ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos tystiolaeth bod y mwyafrif o'r staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd ac mae cofnodion yn cael eu llunio ond nid ydynt yn cael eu dosbarthu i'r staff. Byddem yn argymhell, ar ôl pob cyfarfod, fod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r holl staff. Dangosodd y cofnodion fod y cyfarfodydd yn gyfle i staff ddysgu oddi wrth ei gilydd, er enghraifft sut i gyfarch a siarad â chleifion a chwblhau nodiadau cleifion.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff clinigol ac anghlinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod gan bob un yswiriant indemniad priodol. Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod tystysgrifau cofrestru gwreiddiol yn cael eu harddangos. Roedd un deintydd ond wedi darparu llungopi ac nid oedd tystysgrif deintydd arall yn ymwneud â'r practis hwn. Mae angen i'r practis sicrhau bod y tystysgrifau gwreiddiol yn cael eu harddangos ac nid eu llungopiâu, a bod y tystysgrifau'n ymwneud â'r practis. O dan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, byddai'r gofyniad i bractis sicrhau bod tystysgrifau gwreiddiol yn cael eu harddangos ac nid llungopiâu, a bod y tystysgrifau yn ymwneud â'r practis yn cael ei argymhell. Daw Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 i rym ar 1 Ebrill 2018 ac o ystyried agoswydd y newid hwn, mae AGIC yn cydnabod na fyddai'n ymarferol i bractis gael tystysgrifau newydd ar hyn o bryd.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B i amddiffyn cleifion a'u hunain yn erbyn heintiau. Gwnaeth y practis ddarparu prawf o imiwneidd ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf) <<http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>>. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made>> a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>>, [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol' <<https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>>.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.



## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Manor Road Dental Practice

**Dyddiad yr arolygiad:** 15 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Manor Road Dental Practice**

**Dyddiad yr arolygiad: 15 Ionawr 2018**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis ychwanegu manylion y deintydd locwm at rai'r deintyddion preswyl sy'n cael eu harddangos yn y brif fynedfa.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Mae manylion y deintydd locwm wedi'u hychwanegu at y rhestr yn y brif fynedfa	Karen Miles Rheolwr y Practis	Eisoes Wedi'i arddangos
Dylid diweddarau taflen wybodaeth y practis i roi manylion y deintyddion preswyl presennol.		Mae taflen wybodaeth y practis wedi'i diweddarau i nodi'r deintydd preswyl presennol	Karen Miles Rheolwr y Practis	Wedi'i diwygio eisoes
Mae angen i'r practis adolygu a diweddarau ei gwefan i gynnwys cyfeiriad at wybodaeth gyswllt gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Bydd technegydd y wefan yn cael ei hysbysu o'r wybodaeth ychwanegol sydd angen ei hychwanegu	Karen Miles Rheolwr y Practis	Un mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis ddatblygu proses amgen ar gyfer cofnodi cwynion cleifion ac adborth anffurfiol.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Ni fydd cwynion ffurfiol bellach yn cael eu cofnodi ar gofnodion cleifion. Bydd pryderon llafar ac anffurfiol yn cael eu cofnodi ar lyfr cofnodion ar wahân. Bydd y weithdrefn newydd hon yn cael ei dwyn gerbron y cyfarfod staff nesaf	Karen Miles Rheolwr y Practis	Dau fis
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer trydanol perthnasol yn cael eu cynnwys yn y profion dyfeisiau cludadwy nesaf.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Cynhaliwyd Profion Dyfeisiau Cludadwy ar 26 Chwefror 2018 ac mae'r holl offer trydanol wedi cael ei brofi	Karen Miles Rheolwr y Practis	Prawf Dyfeisiau Cludadwy wedi'i gynnal ar 26 Chwefror 2018
Mae angen darparu cyfleusterau ar gyfer gwaredu gwastraff hylendid benywaidd yn hylan yn y toiled staff.		Byddwn yn cysylltu â'r cwmni sy'n ymdrin â'r hylendid gwastraff benywaidd a bydd bin gwaredu ychwanegol yn cael ei ddarparu.	Karen Miles Rheolwr y Practis	Dau fis
Dylai'r practis sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad at hyfforddiant Argyfyngau Meddygol ac adfywio cardio-pwlmonaidd perthnasol a'i fod	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae staff sydd heb gwblhau cwrs adfywio cardio-pwlmonaidd/Argyfyngau Meddygol perthnasol wedi cael eu	Karen Miles Rheolwr y Practis	Tri mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn ei gwblhau.		hysbysu.		
Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi argyfyngau meddygol i gynnwys gwybodaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau staff pe bai argyfwng yn codi.		Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i nodi swyddogaethau staff pe bai argyfwng yn codi	Karen Miles Rheolwr y Practis	Mae'r polisi wedi'i ddiwygio
Dylai'r practis gyflwyno gwiriadau wythnosol ar gyfer eu cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ac offer dadebru.		Siart wedi cael ei lunio ar gyfer gwiriadau wythnosol a'i hychwanegu at restr wirio wythnosol	Karen Miles Rheolwr	Siart newydd yn cael ei defnyddio
Dylai'r practis roi gwybod i'r MHRA am unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau trwy ei Gynllun Cerdyn Melyn		Mae posteri a ffurflenni wedi'u cynhyrchu a bydd angen hysbysu staff o'r Cynllun Cerdyn Melyn yn y cyfarfod practis nesaf	Karen Miles Rheolwr y Practis	Un mis
Yn unol â chanllawiau, dylai'r practis gynnal archwiliadau blynyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Bydd archwiliad yn cael ei gynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Cysylltwyd â Deoniaeth Cymru a bydd yr holl ddogfennau perthnasol yn cael eu hanfon.	Karen Miles Rheolwr y Practis	Dau fis
Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ym mhob ymweliad	3.5 Cadw cofnodion	Mae pro forma wedi cael ei greu i'w ddefnyddio ymhob archwiliad i gleifion sy'n cwmpasu'r holl bwyntiau perthnasol. Mae hwn yn cael ei	Karen Miles Rheolwr y Practis	Pro forma newydd yn cael ei

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
claf i gofnodi: Cyngor am roi'r gorau i ysmegu Sgrinio am ganser Gwiriadau meinwe meddal Cynlluniau triniaeth		ddefnyddio ar hyn o bryd.		ddefnyddio
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, dylai'r practis arddangos holl dystysgrifau AGIC gwreiddiol pob deintydd fel eu bod yn gallu cael eu gweld gan gleifion.	7.1 Gweithlu			
Dylai'r practis sicrhau bod holl dystysgrifau AGIC yn benodol i'r practis				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**  
**Enw (llythrennau bras):Karen Miles**  
**Swydd: Rheolwr Gyfarwyddwr**  
**Dyddiad:20 Mawrth 2018**